

Pris: 40c

Papur Pawb

Rhif 329

Mai 2007

Anrhydeddu Robat

Ers rhai blynyddoedd bellach cyflogwr mwyaf pentref Tal-y-bont yw Y Lolfa a braf yw medru adrodd am y clod a ddaeth i ran sylfaenydd y cwmni, Robat Gruffudd, dros wyl y Banc.

Yn ystod Gwyl Bedwen Lyfrau a gynhaliwyd yn y Galeri Caernarfon cyflwynwyd gwobr newydd, sef 'Gwobr Cyfraniad Oes Bedwen Lyfrau', i Robat am ei gyfraniad nodedig i'r byd cyhoeddi Cymraeg. Eglurodd Myrddin ap Dafydd, prif symbylydd yr Wyl, mai'r bwriad oedd anrhydeddu yn achlysurol y rhai hynny sy'n gweithio, yn aml y tu ôl i'r llenni, i hyrwyddo cyhoeddi yn yr iaith Gymraeg ac yn amrywio o gyhoeddwyd a llyfrwerthwyr i swyddogion llên ac adolygwyr.

Mewn seremoni syml cyflwynwyd i Robat y wobr, sef tlws o lechen, gan Myrddin ap Dafydd a chafwyd anerchiad gan y Bardd Cenedlaethol, Gwyn Thomas, a oedd hefyd yn gadeirydd y panel a ddewisodd yr enillydd. Cyfeiriodd at Robat fel 'breuddwydiwr chwyldroadol' a oedd hefyd 'yn ddyn busnes llygadog, yn un a wnaeth ei wasg yn llwyddiant diamheuol'.

Yn ei ddull dihafal manteisiodd Robat ar y cyfle yn ei araith o ddiolch i wneud ambell sylw crafog am y Gymru gyfoes ond mynegodd hefyd ei ddiolch i'w feibion Garmon a Lefi,



sydd bellach yn gyfrifol am redeg y cwmni o ddydd i ddydd, ac yn bennaf oll i'w wraig Enid am ei chefnogaeth dros y blynyddoedd.

Llongyfarchiadau i Robat ar yr anrhydedd cwbl haeddiannol. Nid y lleiaf o'i gyfraniadau yn y maes cyhoeddi yw ei ran yn natblygiad papurau bro yng Nghymru gan gynnwys wrth gwrs y cyntaf ohonynt, *Papur Pawb*.

Wrth gyflwyno'r wobr darllenodd Gwyn Thomas gerdd o'i eiddo a luniodd i nodi'r achlysur oedd yn cloi gyda'r geiriau canlynol:

**Freuddwydiwr hoff, yr ydym ni
Yn diolch iti am fynd ati
I geisio llunio inni Gymru
A fyddai'n wlad gwerth trigo ynddi.
Mewn dyfal ac amryfal ffyrdd,
Fe beintiaist ti ein byd ni'n wyrdd.**

Gwyn Jenkins

Gweinidog Newydd Rehoboth a Nasareth

Hyfryd yw estyn croeso cynnes i'r Parch. Wyn Morris, gweinidog newydd Nasareth a Rehoboth. Cynhelir ei Gyfarfod Sefydlu fel gweinidog eglwysi gofalaeth gogledd Ceredigion yng Nghapel y Garn nos Wener 25 Mai am 6 o'r gloch. Brodor o Fancycapel, ger Caerfyrddin, yw Wyn Morris. Ar wahân i bedair blynedd yng Ngholeg y Brifysgol ym Mangor, a chyfnod yn y Coleg Diwinyddol Unedig yn Aberystwyth, cadwodd yn deyrngar i'w sir enedigol. Bu'n athro yng Nghastellnewydd Emlyn a Hendy-gwyn ar Daf, ac yna'n athro ymgynghorol cyn mynd i weinidogaethu ar eglwysi gofalaeth Dosbarth Llanfynydd yn Henaduriaeth Gogledd Myrddin.

Yn ffodus ac yn gyfleus iawn mae ei briod, sef y Parchedig Judith Morris, hefyd yn dod i wasanaethu gyda'r Bedyddwyr yn eglwysi Penrhyn-coch ac Aberystwyth. 'Rwy'n gwybod nad



Judith a finnau yw'r pâr priod cyntaf i weinidogaethu ar eglwysi o wahanol enwadau yng Nghymru,' meddai, 'ond mae hyn yn ddatblygiad cyffrous i'r ddau ohonon ni.' Ar ran yr ofalaeth, dywedodd Llinos Dafis, 'Mae Wyn Morris yn un sy'n gosod ei nod yn uchel, a dycnwch ac ymroddiad a phwyll yn nodweddion amlwg yn ei bersonoliaeth. Mae'n siwr y daw ef a Judith yn wynebaw cyfarwydd ac yn bresenoldeb yn ein cymunedau a'n cynulleidfaoedd yng Ngogledd Ceredigion yn fuan iawn.'

Campus

Llongyfarchiadau i'r grwp dawnsio llinell, y *Ravin' Stompers*, dan arweiniad Heulwen Astley, am lwyddo i godi £3,800 tuag at Apêl Cancr y Fron, Ysbyty Bronglais.

Yn ystod y tair blynedd er pan sefydlwyd y grwp, llwyddwyd i godi cyfanswm o £8,200 ar gyfer yr elusen, ac maent i'w canmol yn fawr am eu gwaith caled. Darllenwch erthygl Geraint Evans, 'Nabod Heulwen', [ar dudalen 11](#) i ddysgu rhagor am Heulwen a'r grwp, a'r gwaith da a wneir ganddynt.



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gersint Evans	(01970) 832473
Tymru Huniaid:	Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org	
Telipost:	Cywllter a golygyddion y mas.	
	Carys Briddon	
GOLYGYDDION LLEOL		
Bont-goch:	Hilda Thomas, Camere, Bont-goch	832395
Parsel Hamlyn:	Dilys Morgan, Allgach	832488
Eglwys Dewi Sant:	Wendy Fuller, Pandy, Pheasais	(01654) 781312
Taliesin:	Mai Leeding, Glennant, Tollesin	832672
Tal-y-bont:	Aileen Williams, Maesmellion	832408
	Kathleen Richards, Y Bryn	832201
Tre'r Ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl	832429
	Janet Evans, Cefnigwainog	(01654) 781260
Maes y Deri:	Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832483
CYMRDEITHAS PAPUR PAWB		
Cadeirydd:	Gwenllïf Llwyd Fân, Llys Alaw, Tal-y-bont	832660
Is-gadeirydd:	Bloddydd Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Ysgrifennydd:	Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont	832384
Trysorydd:	Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont	832560
Aelodiaeth:	Aileen Williams, Maesmellion	832408
Hysbysbion:	Wendy Fuller, Pandy, Pheasais	(01654) 781312
Plygu:	Gwenllïf Pary Jones, Llyn Hammonds	
Doebanrhwy:	Emid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllïf Pary Jones, Eirlys Jones (Tanygrifftadau)	

Cyhoeddi gan Cymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gerllawin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Gwynionydd
Tal-y-bont

Ar ran Cangen Plaid Cymru
Tal-y-bont, hoffwn fanteisio
ar y cyfle hwn i ddiolch o
galon i holl aelodau a
chefnogwyr y Blaid yn yr
ardal am eu gwaith diflino yn
ystod ymgyrch lwyddiannus
Elin Jones.

Diolch i bawb yn yr ardal
am eu cefnogaeth, a
llongyfarchiadau gwresog i
Elin ac i'w hasiant, y
Cyngorydd Ellen ap Gwynn,
ar eu llwyddiant.
Yn gywir

Phil Davies
(Cadeirydd y Gangen)

**Canlyniadau Clwb 100 –
C.Ff.I Tal-y-bont a'r Cylch**

Mawrth

£20 Jonathan Griffiths,
Victoria, Borth
£15 Ann Williams, 1
Broncynfelin, Clarach
£10 John G Davies, 4 Cae'r
Felin, Bow Street

Ebrill

£20 Marian Evans, Tynant,
Talybont
£15 Geraint Jenkins,
Penpompren Uchaf, Talybont
£10 Teulu Edwards, Ponc,
Aberystwyth

Cymdeithas Henoed Tal-y-bont

TRIP I DALYLLYN

Dydd Mercher 30 Mai
Cinio canol dydd yng
ngwesty Tynycornel

Enwau erbyn 21 Mai i:
Myfanwy James (832592);
Eirlys Jones, (832483);
Margaret Jones (832314);
Tegwen Jones (832264)
Kathleen Richards (832201).

Cais am atgofion am deledu Cymraeg

Mae BBC Cymru yn paratoi
rhaglenni am hanes teledu
Cymraeg fydd yn cael eu
darlledu ar S4C yn yr Hydref
i gyd-fynd â dathliadau'r
sianel yn chwarter canrif oed.
Mae'r tîm cynhyrchu yn
awyddus i glywed gan bobl
am eu hatgofion o wyllo'r
teledu – yn enwedig o'r
dechreuadau cynnar. Ydych
chi'n cofio'r tro cyntaf
welsoch chi raglen ar y
teledu? Oeddech chi'n mynd
at gymydog i weld y teledu ar
y dechrau? Pa raglenni
Cymraeg sy'n sefyll yn y cof?
Os oes gyda chi stori i'w
rhannu, cysylltwch ag Elin
Morse, (029 20 323277
elin.morse@bbc.co.uk) neu
drwy lythyr at: Elin Morse,
Ystafell C201, Y Ganolfan
Ddarlledu, Canolfan y BBC,
Llandaf, Caerdydd, CF5 2YQ.

DYDDIADUR

MAI

13

Bethel 10 a 5.30 Cymanfa
Gogledd Ceredigion

Nasareth Cymanfa
Gogledd Ceredigion
(Bethel)

Rehoboth Cymanfa
Gogledd Ceredigion
(Bethel)

Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Chymun
Bendigaid

15

C.Ff.I. Ymarferion Rali
17

**Sefydliad y Merched Tal-
y-bont.** 'Resolutions'
20

Bethel 2 Gweinidog
Nasareth 10 Bugail
Undebol (Garn)

Rehoboth 10 Bugail
Undebol (Garn)

Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid
21

**Merched y Wawr Tal-y-
bont a'r Cylch.** Cyfarfod
Blynnyddol. Lucy Huws,
Tseina

22

C.Ff.I. Ymarferion Rali
25

Cyfarfod Sefydlu y Parch
Wyn Morris, Capel y Garn
am 6 o'r gloch

26

C.Ff.I. Rali'r Sir,
Mydroilyn

27

Bethel 10 Uno yn
Nasareth

Nasareth 10 Rhidian
Griffiths (P'cost)

Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 9.30
Boreol Weddi

31

**Sefydliad y Merched Tal-
y-bont.** Sister Debbie
Stone: Osteoporosis

MEHEFIN

3

Bethel 2 Gweinidog
(Cymundeb)

Nasareth 10 Nicholas Bee
(C)

Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30
Cymun Bendigaid
5

C.Ff.I. Helfa Drysor
10

Bethel 10 Gweinidog
(Oedfa Deulu)

Nasareth 2 Bugail
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Chymun
Bendigaid

12

C.Ff.I. Noson Gêmau
17

Bethel 10 Undebol yr
Ofalaeth, Gerlan, Borth
Nasareth 10 Glyn Morgan,
Tregaron

Rehoboth 5 W.J. Edwards
(C)

Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid

18

**Merched y Wawr Tal-y-
bont a'r Cylch.** Taith i
Lanbed. Swper ac
arddangosfa gan Gareth
Richards (S4C)

19

C.Ff.I. Noson Barbeciw
21

**Sefydliad y Merched, Tal-
y-bont.** Gyrfa Chwilod
24

Bethel 10 Trefn lleol
Nasareth Ymuno â Bethel
Rehoboth

Eglwys Dewi Sant 9.30
Boreol Weddi

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Eleri a Gwilym.

Golygyddion y rhifyn nesaf
fydd Bledwyn
(boh@aber.ac.uk) a Delyth
(01970 832448). Dylai'r
deunydd fod yn llaw'r
golygyddion erbyn Dydd
Gwener 1af o Fehefin a
bydd y papur ar werth
ddydd Gwener 8fed o
Fehefin.

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**



Llenor Llwyddiannus

Llongyfarchiadau i Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r-ddôl, ar ennill sawl gwobr mewn eisteddfodau lleol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ymhlith y rhain roedd y wobwr gyntaf am ysgrifennu ysgrif yn Eisteddfod Uwchmynydd, Aberdaron, ar ddydd Llun y Pasg; cystadleuaeth y Frawddeg yn Llangadog, Troedrhwdalar a Bryngwyn; Hunangofiant a Brawddeg yng Nghapel y Groes, ac ail wobwr am ysgrif yn Llandderfel. Wedi iddi ennill am ysgrifennu 'Erthygl ar gyfer papur bro' yn Eisteddfod Llanfihangel-ar-Arth, ymddangosodd yr erthygl honno ar wefan Cymru'r Byd/ Lleol i Mi y BBC. Yn ddiweddarach, holwyd Carys am gynnwys yr erthygl ar raglen radio Hywel a Nia.

Ennill Gradd Uwch

Llongyfarchiadau i Non Angharad Jones, Frondeg, Tal-y-bont, ar ennill gradd MSc Econ gyda Rhagoriaeth mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgell, dan nawdd Prifysgol Cymru Aberystwyth. Ar hyn o bryd mae Non yn gweithio fel Arolygwraig yn Llyfrgell Prifysgol Aberystwyth, ac ymfalchiwn yn ei llwyddiant.

Gwellhad Buan

Ni fu iechyd Gwilym a Betty Roberts, 99 Maesyderi, Tal-y-bont, yn rhy dda yn ddiweddar, a dymunwn wellhad buan iawn iddynt. Dymunwn wellhad buan hefyd i Mrs Barbara White, Cae'r Deintur, Tal-y-bont, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais.

Dathliad Dwbl!

Cafwyd achlysur arbennig iawn yn ddiweddar pan fedyddiwyd wyr ac wyres fach newydd Hefin a Rita Llwyd, gynt o Benlôn-las, Talybont – sef Beca, merch fach gyntafanedig Angharad a Robin, a Deio, ail fab Siriol ac Osian, a brawd bach i Hedd ac Elan. Pob dymuniad da i'r teulu i gyd.

Pobl a Phethe

Rhian yn diolch



Hoffai Rhian Jones, Eurfan, Talybont – sy'n gweithio fel Cydlynnydd Addysg i Shelter Cymru yn Abertawe – ddiolch o galon i bawb yn ardal *Papur Pawb* a roddodd gefnogaeth iddi pan gymerodd ran yn ddiweddar ym Marathon Llundain. Llwyddodd Rhian i godi £1,200 i Shelter Cymru, a bydd yr arian yn mynd tuag at helpu pobl sy'n byw mewn tai gwael neu sy'n wynebu digartrefedd.

Dywedodd Rhian, 'Roedd yn brofiad bythgofiadwy ac roedd cefnogaeth y dorf yn help mawr. Fe ges fy nghyf-weld gan Colin Jackson ar Tower Bridge, a rhoddodd hynny hwb i mi hefyd. Er hyn i gyd, ro'n i'n falch iawn o weld y llinell derfyn a chael ychydig o faldod gan Mam a Dad cyn teithio'n ôl i Abertawe! Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth – rwy'n ei werthfawrogi'n fawr iawn.'

Genedigaeth Wyr

Croeso mawr i Ifan Lloyd Williams, mab bach i Hefin ac Eley Williams, Bryncastell, Bow Street. Mae Ifan yn wyr i Gwen ac Eurfin, Gwarcwm isaf, Taliesin, ac yn naturiol mae Dac a Nain wrth eu bodd!

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â John a Non Griffiths a'r teulu, Fferm Ffwrnais, Ffwrnais, ar farwolaeth brawd-yng-nghyfraith John, sef Dr Charles Eric Blank, o Sheffield. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Sant

Mihangel, Eglwysfach, ddydd Gwener 11 Mai.

Diolch

Fe hoffai Gwilym a Betty Roberts, 99 Maesyderi, Tal-y-bont, ddiolch o galon i bawb am y cyfarchion ar y radio, y galwadau ffôn, a'r lluo o anrhegion, blodau a chardiau a dderbyniodd Betty pan oedd yn dathlu ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar a phan gafodd lawdriniaeth ar ei llygad. Diolch hefyd am bob caredigrwydd tuag at Gwilym, ac yntau heb fod yn hwylus. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Cydymdeimlad

Yn sydyn yn Llundain ar 20 Ebrill, yn 82 oed, bu farw Ellis Griffith Jones, gynt o Braichgarw, Tal-y-bont. Cynhaliwyd ei angladd ar 9 Mai yng Nghapel Clapham Junction, Llundain. Roedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Tom Jones ac yn frawd i John Meredith, Tegwen ac Enid. Cydymdeimlwn gyda'r teulu oll.

Gwellhad Buan

Pob dymuniad da i Dafydd Rowlands, Glanhau, Taliesin, sydd wedi dod gartref ar ôl ei driniaeth yn ysbyty Bronglais. Hefyd cofiwn am Albert Ward, Frondeg, yntau'n gwella ar ôl derbyn triniaeth.

Cofion cynnes iawn at Muriel Smith, Ty nant, gan obeithio y bydd hithau adref yn fuan iawn.

Croeso i Dal-y-bont

Croeso cynnes i dri sydd wedi symud yn ddiweddar i fyw yn Nhal-y-bont. Mae Annie, sy'n gweithio i'r Cyngor Sir, bellach yn byw yn Tw' Twt, Penlôn, ac Emily a Glen – y naill yn gweithio mewn ysgol yn Aberystwyth a'r llall yn y Brifysgol – wedi symud i Pen-y-bryn, Penlôn (a arferai fod yn gartref i'r diweddar Hywel a Miriam Thomas). Gobeithio y byddant i gyd yn hapus iawn yn ein plith.

Penblwyddi Arbennig

Bu sawl un yn dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar, yn cynnwys Mrs Betty Roberts, 99 Maesyderi, Tal-y-bont a Mrs Avril Bond, Taliesin. Aeth Eurfin Williams, Gwarcwm Isaf, Taliesin, allan i Benidorm i ddathlu ei ben-blwydd e mewn steil! Dathlodd Mrs Mary Ellis, Lerry View, Tal-y-bont, ei phen-blwydd yn 90 oed ar 2 Mai yng nghwmni ei theulu yng nghartref Abermad, Llanilar. Dymuniadau gorau iddynt i gyd.

Trwmpedwr o fri!

Llongyfarchiadau i Elis Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont, am lwyddo – gydag anrhydedd – yn ei arholiad Trwmped Gradd 3 yn ddiweddar. Da iawn ti, Elis!

Cronfa Eleri 2006

Eleni fe gytunodd Pwyllgor Cronfa Eleri i gynnig cefnogaeth i'r ceisiadau canlynol:

Neuadd y Penrhyn a Chymdeithas Dafydd ap Gwilym (£4,000.00) i benodi ymgynghorydd ariannol; Ysgol Sul Bethlehem, Llandre (£2,000.00) i brynu cadeiriau newydd; Cegin St Ioan, Penrhynoch £1,855.00 tuag at adnewyddu'r gegin; Eglwysi Gogledd Ceredigion (£1,500.00) i brynu offer ar gyfer gweithgareddau clwb ieuenctid newydd; Ysgol Gymunedol Tal-y-bont (£700.00) ar gyfer prynu adnoddau chwarae; Clwb Snwcer Rhydypennau (£500.00) er mwyn ailorchuddio'r bwrdd chwarae; Cyngor Cymuned Genau'r Glyn (£450.00) i dalu am wasanaeth hyfforddwr; Cylch Meithrin Rhydypennau (£395.00) i ddatblygu cornel ddarllen. Cyfanswm o £12,400.

GWYLIAU
Seren Arian
13 Sgwar y Castell, Caernarfon LL55 2NF

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL, YR WYDDGRUG

Sul 5ed Awst – Sadwrn 11eg Awst

Gwesty De Vere, Parc Dewi Sant – 7 Diwrnod
6 Noson, Cinio Gwely a Brecwast - £499

Llun 6ed Awst – Gwener 10fed Awst

Gwesty'r Holiday Inn, Gorllewin Caer – 5 Diwrnod
4 Noson, Cinio Gwely a Brecwast - £329

Sul 5ed Awst – Sadwrn 11eg Awst

Gwesty Moreton Park – 7 Diwrnod
6 Noson, Cinio Gwely a Brecwast - £449

Sul 5ed Awst – Sadwrn 11eg Awst

Gwesty Ramada, Wrexham
6 Noson, Cinio Gwely a Brecwast - £439

TEITHIAU YN Y D.U.

2il Ebrill – Bideford a *Gogledd Dyfnaint – 5 Diwrnod – £159
2il Ebrill – Regency Brighton – 5 Diwrnod – £199
9fed Ebrill – Torquay – 5 Diwrnod – £149
9fed Ebrill – Eastbourne ac Arfordir Sussex – 5 Diwrnod – £219
16eg Ebrill – Yn glyd ar lan y Llynnoedd – 5 Diwrnod – £199
16eg Ebrill – Ynys Wyth – 5 Diwrnod – £229
16eg Ebrill – Norwich a'r Norfolk Broads – 5 Diwrnod – £219
16eg Ebrill – Stirling a'r Trossachs – 5 Diwrnod – £179
16eg Ebrill – De Ddwyrain Lloegr – 5 Diwrnod – £179
30eg Ebrill – Antur yn yr Ucheldir – 5 Diwrnod – £259
7fed Mai – Bournemouth – 5 Diwrnod – £209
7fed Mai – Rhyfeddodau Caint a Ffrainc – 5 Diwrnod – £269
7fed Mai – Oban, Mull ac Iona (hollgynhwysol) – 5 Diwrnod – £299

GWYLIAU YN EWROP

1af Mawrth – Gŵyl Ddewi yn Eurodisney – 4 Diwrnod – o £249
26ain Mawrth – Moethuswydd yn Berlin – 6 Diwrnod – £299
21ain Mai – Llyn Garda a Fenis – 10 Diwrnod – £499
3ydd Meh – Norwy, Gwlad Haul y Nos – 13 Diwrnod – £999
21ain Meh – Antur Mynyddoedd y Tyrol – 10 Diwrnod – £499
1af Gorff – Andorra – 10 Diwrnod – £469
18fed Gorff – Slofenia a Llyn Bled – 11 Diwrnod – £599
5ed Awst – Crwydro Gwlad Pŵyl – 11 Diwrnod – £675
18fed Awst – Prague, Budapest a Ffiena – 11 Diwrnod – £699
1af Medi – Tâlth Fawr Ewrop – 14 Diwrnod – £999
8fed Medi – Costa Verde Portiwgal – 13 Diwrnod – £659
12fed Medi – Awstria, Cestyll a Chyngherddau – 11 Diwrnod – £749
19eg Medi – Gwledydd y Baltig a St Petersburg – 12 Diwrnod – £1099
24ain Medi – Corsica a Sardinia – 13 Diwrnod – £999

01286 672333

www.silverstarholidays.com

Cyfarfod Cystadleuol

Cynhaliwyd Cyfarfod Cystadleuol Cymdeithas Capel Rehoboth llwyddiannus unwaith eto ar nos Wener, 20 Ebrill yn festri Rehoboth. Y beirniad oedd Mr Gareth William Jones, Bow Street, ac estynnwyd gair o groeso iddo gan John Leeding. Hefyd roedd yn braf cael croesawu'r gweinidog newydd, y Parchedig Wyn Morris a'i briod, i'n plith. Cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan rai o'r chwiorydd, a thalwyd y diolchiadau i bawb gan Bob Williams.

Dyma'r canlyniadau:

Gorffen Limrig

1. Carys Briddon

Brawddeg o'r gair 'GWEINIDOG'

1. Carys Briddon

Cerdd Ddigrig 'Yn y Mart'

1. Carys Briddon
2. Owen Jenkins
3. Mrs C Jenkins

Stori Fer

1. John Leeding

Traethawd 'Fy Milltir Sgwâr'

1. Carys Briddon
2. Carys Briddon
3. John Leeding

Llawysgrifen

1. Myfanwy Rowlands

Gwaith Llaw 'Cerdyn Pasg'

1. Beti Wyn Davies
2. Beti Wyn Davies
3. Mair McDarren

Darllen darn heb ei atalnodi

1. Judith Morris a Mai Leeding
2. Non Griffiths

Cerdd 'Clychau Cantre'r Gwaelod ar ei newydd wedd'

1. Carys Briddon
2. Mrs C Jenkins
3. Owen Jenkins

Gorffen dau gwpled

1. Carys Briddon
2. Myfanwy Rowlands
3. Non Griffiths

Croesair Beiblaidd

1. John Leeding
2. Carys Briddon

Darllen darn o farddoniaeth neu ryddiaith

1. Edna Thomas
2. Myfanwy Rowlands a Non Griffiths

Cân

1. Eiriona Metcalfe



Ar ddiwedd y cystadlu y cystadleuwyr, y cefnogwyr a'r beirniaid, Gareth William Jones, i'w gweld yn gytun ac heb awgrym bod neb wedi ceisio llwgrwobrwyo'r beirniad!

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Catrin Mai a Iestyn Davies, Ty Gwyn, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu hail ferch ddydd Sul 6 Mai, sef Miriam, chwaer fach i Glain. Hefyd ar 6 Mai ganed trydydd mab, Ben, i Stephen a Tania Ross, Goetre, Llangynfelyn, brawd bach i Toby ac Alex. Pob hapusrwydd i'r ddau deulu a chroeso i'r newydd-ddyfodiaid

Ruth yn Creu Baneri

Dros y misoedd diwethaf bu Ruth Jên, Hen Siop Sgidie, Tal-y-bont, yn gweithio ar brosiect pwysig a thrawiadol gyda Chlwb leuenctid y Morlan, Aberystwyth. Y brîff oedd creu darn o waith cyhoeddus (nad oedd yn barhaol) i'w osod ar y wal y tu allan i'r Morlan. Ariannwyd y prosiect gan grant loteri, a chafodd ei gwblhau ar gyfer y Pasg.

Yn ogystal â defnyddio thema Y Pasg o fywyd newydd, a symboliaeth y gwanwyn (golau, gobaith, tyfiant) cynigiwyd hefyd bod y gwaith yn tynnu sylw at y ffaith fod 2007 yn nodi 200 mlwyddiant y mesur seneddol i ddileu'r fasnach gaethweision.

Yn y sesiynau agoriadaol, cyfeiriodd Ruth at y murlun a grewyd ganddi yn Nhal-y-bont, gan esbonio'n fanwl y broses o'i greu, yna – mewn sesiynau ar y cyd gyda'r Parch. Pryderi Llwyd Jones a rhai o arweinyddion y gru'p – llwyddwyd i ddatblygu rhai o'r themâu a gynigiwyd.



Penderfynwyd mai cyfres o bedair baner fyddai ffurf y gwaith terfynol, a chrewyd dwy ohonynt yn y Clwb leuenctid. Cafwyd ysbrydoliaeth o fyd natur – o flodau a siapiau – yna argraffwyd geiriau cadarnhaol arnynt a godwyd o'r sesiynau trafod, geiriau megis heddwch/rhyddid/cariad/parch. Mewn gweithdy undydd, crewyd hefyd flodau, dail a choed o wiail a phapur tisw, i'w gosod wrth droed y baneri gorffenedig.

Gwaith Ruth oedd argraffu'r ddwy faner arall, un yn cynrychioli'r gorffennol ac erchylldra'r fasnach gaethweision a'i chysylltiad â Phrydain, ac un arall yn adlewyrchu neges gadarnhaol Martin Luther King yn ei araith enwog. Cafodd y baneri gorffenedig eu gosod yn eu lle yn barod i'w gweld ar ddydd Gwener y Groglith, a chawsant argraff fawr ar bawb. Llongyfarchiadau i Ruth ar ei gwaith yn creu prosiect mor drawiadol a phwysig.

S. F. BYRNE
Adeiladwr a Saer Maen

Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

CODI Tŷ NEU ESTYNIAD?

Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimanwydd, Tal-y-bont, Leredigion SY24 5HU
01970 832760

Merched y Wawr

Siglwyd y Neuadd Goffa i'w seiliau gan chwerthin brwd yr aelodau yn ein cyfarfod fis Ebrill wrth i ni wrando ar storïau doniol yn cael eu hadrodd gan ein gwr gwadd ffraeth – Emyr Llewelyn. Roedd

llawdriniaeth yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau i Beti Jenkins, Myfanwy James, Tegwen Jones a Margaret Jones ar ennill yr ail wobwr



Cerddwyr blinedig y tu allan i 'set' y gyfres deledu Minafon

ganddo stôr o storïau am gymeriadau a digwyddiadau cefn gwlad i'w rhannu â chynulleidfawr werthfawrogol iawn. Roedd y chwerthin yn donic i bob un a oedd yn bresennol. Diolchwyd iddo gan Diana Jones.

Dymunwn wellhad buan i Diana sydd newydd dderbyn

trwy Geredigion yn yr Wyl Fai yn Llanbed yn ddiweddar.

Ddydd Llun Gwyl y Banc, teithiodd llond bws o aelodau heini draw i Ben Llyn i fwynhau taith gerdded dan arweiniad John a Mai Leeding. Wedi'r cerdded mwynhawyd pryd o fwyd yng Ngwesty Nanhoron cyn troi am adre.

Telynorion Tal-y-bont

Os oeddech yn digwydd bod yn mynd am dro ar hyd y prom ddydd Sul 29 Ebrill, efallai i chi glywed rhai o delynorion ifanc yr ardal yn canu eu telynau yn y bandstand. Roedd yn Ddiwrnod Codi Ymwybyddiaeth o'r Delyn, ac roedd Eilir Huws, Henllan ac Esther Ifan, Llys Alaw – ynghyd ag Osian Penri o Daigwynion, Llandre – wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr achlysur. Canodd Esther ac Eilir unawdau ar y delyn, ac Osian yn perfformio fel aelod o'r triawd Llanciau'r Llafnau. Roedd telynorion lleol profiadol hefyd yn cymryd rhan, a braf oedd gweld pobl yn aros i wrando ac yn ymddiddori yn y telynau. Llongyfarchiadau i Eilir, Esther ac Osian.



Cyngor Cymdeithas Ceulanamaesmawr

Cyfarfu'r Cyngor ar y noson olaf o Ebrill gyda'r Cadeirydd, Cyng. Ellen ap Gwynn, yn estyn ei chroeso arferol i chwech o'i chyd-Gynghorwyr, y gweddill o'r aelodau yn ymddiheuro am resymau amrywiol. Derbyniwyd fod cofnodion y Cyngor blaenorol yn rhai cywir.

Bydd Adran Priffyrdd y Cyngor Sir yn trefnu i drwsio'r ffordd ger Winllan yn y dyfodol agos, a byddant hefyd yn gwneud pob ymdrech i gyflawni gwaith cynnal a chadw ar y ffyrdd gwledig gyda'r adnoddau a'r gyllideb sydd ar gael iddynt trwy'r flwyddyn.

Mae'r gwaith o wella cyflwr y llwybr troed yn y fynwent wedi'i ddechrau, a disgwylir rhoi graean arno'n fuan. Derbyniwyd ymateb oddi wrth yr Asiantaeth Cefnffyrdd i'r cais am balmant tuag at y fynwent trwy egluro nad yw'n bosibl iddynt greu palmant i'r safon priodol gan nad oes llain digonol ar hyd ymyl y ffordd ac y byddai'n ofynnol prynu sribryn o dir preifat i wneud hyn. Nid yw'r Asiantaeth yn gweld y cynllun yn flaenoriaeth ar hyn o bryd ac nid yw'n fwriad ganddynt i'w gynnwys yn y rhaglen waith bresennol.

Y cwmni Archwilio Allanol BDO Stoy Hayward fydd yn parhau yn archwilwyr i'r Cyngor hwn, ac y mae holl ddogfennau ar gyfer archwiliad y flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi dod i law.

Darllenwyd llythyr oddi wrth yr Heddlu yn gofyn am gefnogaeth ariannol tuag at

gyflogi Swyddogion Cefnogi Cymunedol. Nid yw'r Cyngor yn barod i gyfrannu at hyn. Y Cyng. Rhian Evans fydd yn parhau i gynrychioli'r Cyngor ar bwyllgorau ardal Un Llais Cymru. Cynrychiolir y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor Sir gan y Cyng. Glenys Edwards a'r clerch.

Rhoddwyd adroddiad byr o sefyllfa ariannol y Cyngor i ddiwedd Mawrth, a chytunwyd ei bod yn dderbyniol. Manylir ar y cyfan yn y cyfarfod nesaf.

Daeth gwybodaeth i law oddi wrth Adran Gynllunio'r Cyngor Sir fod y ceisiadau i godi cysgodfan i anifeiliaid ar dir Pantgwyn, Bontgoch, codi mast mesur gwynt ar Moel Fferm a chais amlinellol i godi ty ger Brynadda wedi'u caniatáu. Trafodwyd ceisiadau cynllunio i godi estyniad llawr cyntaf ac allanfa dân a sied storio i'r Lolfa ac un am godi ty ger Aldebaran, Bontgoch.

Nid oedd gan y Cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r cais i wyro ychydig ar lwybr troed heibio Nant y Nod a'r angen i godi dwy gamfa arno.

Rhoddwyd gwybod i'r Cynghorwyr fod Mr Sid Titman wedi penderfynu rhoi'r gorau i dorri gwair y Patshyn Glas. Roedd y Cynghorwyr yn werthfawrogol iawn o'i waith manwl ac eithriadol o dacles dros nifer dda o flynyddoedd.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned nos Lun 21ain Mai am 7.30 y.h. gyda chroeso fel arfer i aelodau'r cyhoedd.

Cyfarfod y Chwiorydd Rehoboth

Yn ein cyfarfod olaf am y tymor a gynhaliwyd ar 13 Mawrth, aeth criw ohonom yn eiddgar ar daith i ymweld â 'Blue Island Ceramics' yn Ynyslas. Heb fod yn sicr beth oedd yn ein disgwyl, cawsom brawn difyr dros ben, yn peintio mewn unrhyw batrwm o'n dewis ar Bisco.

Eglurodd Helen, y perchennog, ei bod yn fwy buddiol iddi brynu'r crochenwaith o'r Eidal, Ffrainc a Chernyw yn barod i'w peintio cyn ei roi yn yr olyn. Ar ôl i bawb ddewis plat, jwg neu fowlen, aed ati i beintio gyda brwdfrydedd. Erbyn hyn, maent yn addurno ein cartrefi ac yn werth eu gweld.

Ar ddiwedd y pawns roedd Helen wedi paratoi te gwerth chweil a chafwyd cyfle i ymlacio a chymdeithasu. Diolchodd Eirlys am brawn hyfryd a hefyd am gydweithrediad pawb yn ystod ein cyfarfodydd.

Cyrddau Pasg

Cynhaliwyd pedwar cwrdd dros y Pasg yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont, yn ôl yr arfer, gan ddechrau gyda chymun dan ofal y Gweinidog, y Parch. Richard Lewis, fore Gwener y Groglith. Ddydd Sul y Pasg y pregethwr gwadd oedd y Parch. Robert William Jones, bellach o Wrecsam, a chroesawyd ef yn gynnes yn ôl yn i'w hen gynefin. Cafwyd dwy bregeth ganddo, yn y bore a'r hwyr, a siaradodd â'r plant yng ngwasanaeth yr Ysgol Sul yn y prynhawn. Hyfryd oedd gweld y cynulleidfaoedd niferus a ddaeth i wrando arno a'i gefnogi, yn cynnwys ein cyfeillion o Gapel y Garn, Bow Street, a chapeli eraill y ddwy ofalaeth.

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Noson lansio cryno-ddisg newydd y telynor ROBIN HUW BOWEN Y Ffordd i ABERYSTWYTH



Nos Sadwrn, Mehefin y 9^{fed}, Neuadd Fawr, Aberystwyth

Cyngerdd i ddechrau am 7.30 yr hwyr yng nghwmni'r grŵp gwadd, Crasiant - sydd hefyd yn dathlu rhyddhau ei dvd cyntaf ar label Sain

Tocynnau : £10

CYSYLLTWCH Â SAIN I ARCHEBU TOCYNNAU - 01286 831.111

Cyngor Cymdeithas Ceulanamaesmawr Cyfarfod Blynyddol

Nos Lun
21 Mai 2007
am 7.30 o'r gloch
yn Neuadd Goffa Talybont
Croeso cynnes i bawb

Ysgol Llangynfelyn

Gwersyll Llangrannog

Cafwyd penwythnos gwych o hwyl a gweithgareddau anturus unwaith eto eleni, pan aeth disgyblion blynyddoedd 4,5 a 6 i Langrannog, o Ebrill 20-22. Roedd y croeso'n gynnes fel



arfer, a chafwyd cyfle i fwynhau cwmnïaeth plant eraill. Bu'n benwythnos yn llawn o weithgareddau di-ben-draw, yn wibgartio, sgio, sgelfrolio, beiciau modur a merlota, a'r disgo nos Sadwrn yn uchafbwynt ar y cyfan. Erbyn y prawn dydd Sul, roedd pawb, gan gynnwys Mrs Daniell a Ms Foulkes, wedi blino'n ofnadwy, a dim syndod am hynny, o ystyried yr amser yr aethant i gysgu nos Wener!! Braff oedd cael gwybod fod pawb wedi ymddwyn yn deilwng, ac felly fod pawb wedi cael penwythnos wrth eu bodd!

Cystadleuaeth Poster Dulas

Mae cwmni Dulas, Machynlleth, yn dathlu pen blwydd yn 25 oed eleni, a chafodd y plant gynnig i gymryd rhan mewn cystadleuaeth creu poster i ddathlu'r achlysur. Bu'r plant wrthi'n ddygn yn creu'r posteri, a buont yn llwyddiannus gan ennill gwobr i'r ysgol. Caiff y posteri llwyddiannus eu

harddangos yng ngaleri'r Tabernacl, ac yna yn swyddfeydd Dulas yn y Parc Eco, Machynlleth.

Pêl-droed Merched yr Urdd

Bu tîm o ferched yr ysgol yn cystadlu'n ddiweddar mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan yr Urdd. Ar ôl bore o gyffro a hwyl, dychwelodd y merched heb ennill un gêm, ond a'u profiad wedi ehangu, a'r teimlad braff o fod wedi bod yn gystadleuol yn erbyn timau mwy profiadol. Da iawn nhw!



Ysgol Eco

Llongyfarchiadau i'r ysgol ar ennill gwobr efydd yr Ysgolion Eco wrth ymgeisio am y tro cyntaf. Mae'r wobwr wedi'i seilio ar ddulliau'r ysgol o leihau y defnydd o ynni, o ailgylchu adnoddau, a cheisio lleihau effaith yr ysgol ar yr amgylchedd. Bydd rhagor o waith eto i'w wneud er mwyn sicrhau ein bod yn cael effaith go iawn ar ein harferion.



Arddangosfa Y Filltir Sgwâr

Ar ôl gweithio yn galed iawn yn nhymor y Nadolig i greu celfyddyd wreiddiol oedd yn ymwneud â'r filltir sgwâr, cafodd disgyblion blynyddoedd 3 i 6 y frainc o fynychu agoriad

swyddogol arddangosfa o'u gwaith yn Llyfrgell Caerfyrddin. Roedd yn braff iawn i gael gweld eu gwaith wedi ei arddangos yno, a gobeithir y daw yr arddangosfa i Aberystwyth yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Cafodd y plant wedyn gyfle wedyn i arsylwi ar arddangosfa serameg yn Oriel Myrddin.

Y Cyngor Ysgol a Masnach Deg

Bu'r Cyngor Ysgol, Criw Cynfelyn, yn brysur iawn yn dysgu am Fasnach Deg, mewn cynhadledd i Gynghorau Ysgol ym Mhenglais yn ddiweddar. Er eu bod yn gymharol wybodus am y maes, roedd yn braff iawn cael blasu gwahanol nwyddau sydd yn dod dan faner Masnach Deg, ac edrychir ymlaen at weithgareddau'n hybu'r dull hwn o farchnata yn y dyfodol.

A DAVIES TRYDANOL
Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLLETH
Powys SY20 8SR
ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Ysgol Tal-y-bont

Gwella Ardal Allanol yr Ysgol

Dros yr wythnosau diwethaf, mae'r ysgol wedi bod yn ddyledus iawn i rieni a ffrindiau'r ysgol am y gwaith o ddechrau newid a gwella ardal chwarae i'r plant.

Cawsom ddiwrnod prysur o weithgarwch

ar ddiwedd gwyliau'r Pasg pan ddaeth criw at ei gilydd i beintio tai bach y plant hyn a thrwsio, glanhau a pheintio o amgylch yr iard. Yn

dilyn hyn bu rhieni a phlant y plant lleiaf yn brysur yn ystod wythnos gyntaf y tymor yn plannu, peintio a chreu ardaloedd dysgu newydd. Mae llawer o waith eto i'w wneud ond, gyda'r un gefnogaeth, rydym yn ffyddiog o allu gorffen y gwaith yn fuan. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i Gronfa Leri am grant sylweddol i'n cynorthwyo i fwrw ymlaen gyda'n cynlluniau. Diolch o galon i bawb a fu'n ein cefnogi.

Ysgol Eco

Tra bod oedolion Cymru yn pleidleisio dros gael Aelodau Cynulliad ar 3 Mai, buodd plant Ysgol Tal-y-bont yn pleidleisio ac ethol plant i fod ar Gyngor Eco'r ysgol. Roedd y canlyniad yn agos dros ben ond dyma enwau'r plant ffodus: Harri, Lecsi, Seren, Rhodri, Mari, Siwan, Medi, Robin, Ryan, Leri, Madeleine, Eilir. Peth o waith y Cyngor fydd sicrhau bod ffrwythau'r Clwb Ffrwythau yn rhai Masnach Deg a'n bod ni'n taflu'r ffrwythau wedyn i'r bin compost.

Huw Evans

Ymweliad Meleri

McDonald â'r ysgol

Ar 3 Mai daeth Meleri McDonald i'r ysgol i sôn am ei thaith yn Nepal. Roedd hi wedi mynd i Base Camp Everest er mwyn codi arian i elusen Macmillan. Roedd hi



wedi cyfarfod llawer o bobl gwahanol ac wedi gweld golygfeydd hardd iawn. Fe roddodd hi anrheg i'r ysgol, sef tapestri bach sydd i fod dod â lwc i ni, fel ffordd o ddiolch i ni am godi £101 ar gyfer yr elusen. Tra bod Meleri yn cerdded yn Nepal, fe fuom ni'n cerdded yr holl ffordd i ben Allt y Crib. Fe wnes i fwynhau gwranddo am y daith yn fawr iawn ac rwy'n siwr fod pawb arall wedi hefyd.

Madeleine

Pêl-droed

Ar ddydd Iau olaf mis Ebrill, aeth y tîm cyntaf i Gaeau Blaendolau i chwarae mewn pencampwriaeth pêl-droed a drefnwyd gan yr Urdd. Chwaraeodd Peter, Luke, Richard J, Huw, Iwan, Richard B, Eilir a Gruffudd dros y bechgyn ac Elan, Lois, Nia, Gwenno, Catrin, Ffion, Alwenna ac Ellie dros y merched. Fe wnaeth y bechgyn yn dda ond y merched wnaeth orau wrth gyrraedd y rownd derfynol cyn colli 1-0 i Ysgol Penrhyn-coch. Da iawn chi ferched, a diolch yn fawr i

Brian a Karen am edrych ar ôl ni.

Luke a Peter

Masnach Deg

Ar 3 Mai aeth Cyngor yr Ysgol i Ysgol Penglais fel rhan o'r prosiect ysgolion i ddeall Masnach Deg. Roeddem ni wedi cael amser da yn gwranddo ar wasanaeth gan Ysgol Rhydypennau ac yna fe wnaethon ni ychydig o waith celf efo Ruth Jên. Buom ni'n blasu gwahanol fwydydd Masnach Deg, fel cnau a siocled a diod, wedyn blasu mêl o wahanol flasau. Fy hoff un i oedd yr 'Original Forest Honey'. Wedyn buom ni'n gwranddo ar berson yn siarad am ddillad Masnach



Deg, am sut mae'r pethau'n cael eu gwneud a sut mae cotwm yn tyfu. Mwynheon ni yn fawr iawn.

Elan Elidyr

Consuriwr yn yr ysgol

Daeth consuriwr i'r ysgol ar un dydd Mawrth. Roedd pawb yn gyffrous i weld e yn gwneud ei driciau. Dechreuodd wrth dynnu darnau arian allan o glustiau, cegau a thrwynau plant. Roedd ganddo bêl oedd yn hedfan yn yr awyr. Gofynnodd i Eilir ddod allan a gorwedd ar ben bwrdd a thynnodd gyllell drydan a dechrau ei lifio, ond roedd Eilir yn OK! Wedyn gofynnodd i Ryan ddod allan a rhoddodd gortyn o gwmpas

ei wast a rhoi dwr yn y cortyn. Daeth y dwr allan yn y tu blaen ac roedd yn edrych fel bod Ryan yn gwneud pi-pi! Rhoddodd Miss Huw bres iddo ac aeth y pres ar dân ond cafodd Miss Huw e'n ôl yn y diwedd. Fe gafodd blwyddyn 4,5 a 6 weithdy wedyn ac fe ddysgodd ddau dric i ni. Roedd yn dda iawn.

Gruffudd a Richard Bailey

Gweithdy Animeiddio

Ar ddiwedd mis Ebrill, aeth blwyddyn 5 i weithdy animeiddio yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Cawsom esboniad o ystyr animeiddio a sut i wneud pethau symud. Dewisodd ein grwp ni y llythyren G am

Guinness, a'n tasg oedd gwneud i'r llythyren symud. Er mwyn gwneud hyn roedd angen cardfwrdd coch a du, beiro du, papur hufen A3, siswrn, bluetac, glud a thâp selo. Ar ôl i ni orffen ein tasgau arbennig, aethom i roi popeth at ei gilydd er mwyn dechrau animeiddio. Cymerodd y gwaith tua 20 munud ac fe barhaodd y ffilm tua 20 eiliad. Dyma beth oedd yn digwydd yn ein ffilm ni. Bob tro roedd y gwydr yn llenwi roedd y wên yn mynd yn fwy ac yna roedd "uinness" yn ymddangos er mwyn sillafu'r gair "Guinness". Cawsom lawer o hwyl yn y gweithdy, a phawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Penwythnos Llangrannog

Aeth 23 o blant o'r ysgol am benwythnos i Llangrannog ar 22 Ebrill. Roedd pawb wedi edrych ymlaen i aros yn Llangrannog. Y weithgaredd gynta oedd y daith gerdded i'r traeth. Ar ôl cyrraedd yn ôl i'r gwersyll cawsom jamborî. Yn ystod y penwythnos buom yn trampolino, beicio modur, nofio, merlota, sgio a sglefr-rolio. Mwynheuom y penwythnos yn fawr iawn. Diolch i Mrs Jenkins a Miss Jones am edrych ar ôl ni.

Esther a Ffion



Gweithdy Argraffu

Dydd Llun 23 Ebrill aeth Blwyddyn 3 i weithdy argraffu yng Nghanolfan y Celfyddydau. Yn gynta aethom ni i weld arddangosfa poster. Roedd y posteri yn dweud wrth bobl am ddarllen papurau newydd, i brynu wyau arbennig ac i fynd i Awstralia. Wedyn roedden ni'n cynllunio poster 'BWYTEWCH 5 FFRWYTH Y DIWRNOD'.

Ben, Mari, Geraint a Bethan

Ymweliad â'r Ffatri Fêl

Ddydd Iau 3 Mai fe gerddom ni gyda help yr heddlu i ffatri fêl Maesnewydd. Rhoddom ni y mêl yn y potiau a rhoi'r topiau ar y potiau. Wedyn rhoddom ni sticeri ar y potiau a'u rhoi ar y belt



symudol. Pan gyrhaeddodd y potiau y canol roedd y peiriant yn lapio sticeri o'u cwmpas. Wedyn pan gyrhaeddodd y potiau y diwedd rhoddom ni nhw mewn bocsys cardfwrdd a'u lapio mewn plastig. Wedyn cyrhaeddodd baner fawr IFAT i gefnogi Masnach Deg.

Zoe ac Eden

Eisteddfod yr Urdd, Caerfyrddin

Erbyn y rhifyn nesaf bydd Eisteddfod yr Urdd arall wedi mynd heibio. Pob hwyl i bawb sy'n cystadlu ar ran yr Ysgol eleni: y grwp dawnsio disgo dan hyfforddiant Miss Emma, Elen yn y gystadleuaeth dawnsio disgo unigol a Medi yn dawnsio stepiau. Gwnewch eich gorau!

Newyddion y Staff

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Rachel Jones ar enedigaeth Evan. Pob hwyl i chi i gyd oddi wrth bawb yn yr Ysgol.

Mae'n hyfryd cael croesawu dau aelod newydd o staff i'r Ysgol ar ddechrau tymor yr haf. Pob hwyl i Miss Gwennan Morgan a Mrs Ruth Dennis yn eu gwaith.

Band Pres Cylch Aberystwyth

Llongyfarchiadau i Gwydion Jones, Peter Jones, Geraint Jenkins a Dennis Foster sy'n aelodau o Fand Pres Ieuenctid Aberystwyth ar eu perfformiad yn Neuadd Gyngerdd Manceinion ar 28 Ebrill. Roeddynt wedi teithio yno i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i fandiau pres, ac un o'r unawdwyr yn y band oedd Gwydion Jones. Da iawn chi, bois!



Trawsgwlad



Ar 18 Ebrill aeth Eilir, Gwenno, Nia, Alwenna, Eden ac Ella i redeg yng nghystadleuaeth traws-gwlad rhanbarth Ceredigion. Dechreuon ni o'r ysgol am 11.45 ac roedd y

gystadleuaeth yn cychwyn am 1. Bu ysgol Tal-y-bont yn llwyddiannus iawn, gyda Catrin, Alwenna a Nia yn dod yn y 10 uchaf. Diolch i bawb gymerodd ran ac i bawb am y liffts. Diolch!


Eilir

TEIARS HUW LEWIS TYRES

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth
Ffôn: 01970 636774

Am bris cystadleuol ar bob math o delars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...

- Dewis eang o delars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos



Sioe Tal-y-bont

Nos Lun 5 Mawrth cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol y Sioe yn y Neuadd Goffa. Adroddodd y Cadeirydd, Marion Evans, ein bod wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall. Diolchodd i'r Swyddogion a phawb arall am eu cydweithio parod a hapus dros y flwyddyn.

Etholwyd y Swyddogion canlynol am 2007 –

Llywyddion: Mr a Mrs Robert Williams, Penywern;

Cadeirydd: Evan Jenkins, Carregcadwgan;

Is-gadeirydd: Dewi Evans, 93 Bryncastell, Bow Street;

Trysorydd: Howard Ovens, Frondirion;

Ysgrifennydd Cyffredinol:

Janet Jones, Llwynglas;

Ysgrifennydd y Babell: Dilys Morgan, Alltgoch;

Cyfarwyddwr y Sioe: Ifor Mason, Bryngwynmawr;

Rheolwr y Maes: Emyr Davies, Llety Ifan Hen.

Cadarnhawyd y bydd Sioe eleni yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn 25 Awst yng nghaeau'r Llew Du, trwy ganiatâd caredig Teulu Richards, Glanleri.

Daeth cyfnod Marion fel Cadeirydd i ben, a dymunodd yn dda i Evan Jenkins wrth iddo ef gymryd y gadair. Diolchodd yntau i Marion am ei gwaith caled a'i ffyddlondeb i'r gadair o fis i fis dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rydym yn cwrdd yn y Neuadd Goffa ar nos Lun gyntaf bob mis am 8 o'r gloch ar gyfer pwyllgor gwaith y sioe. Os oes diddordeb gan unrhyw un mewn dod, mae croeso i chi ymuno â ni.

Janet Jones

Clwb Ffermwyr Ieuanic

Bu aelodau Clwb Tal-y-bont yn ymweld â Milfeddygfa Ystwyth, Llanbadarn, nos Fawrth, 10 Ebrill. Llawer o ddiolch i'r milfeddyg Elfed Lewis am ein tywys o amgylch ac egluro am ei waith. Nodon ddifys ac addysgiadol. Y nos Fawrth ganlynol cawsom hanes taith John Hopkins, aelod o C.F.I. Trisant, am ei daith o amgylch Seland Newydd 'nôl yn Hydref/Gaeaf 2005.

Mi fydd y clwb yn cynnal noson barbeciw ac adloniant nos Fawrth, 19 Mehefin, lle bydd croeso i bawb ohonoch ymuno â ni. Ceir mwy o fanylion yn rhifyn nesaf *Papur Pawb*. Bellach mae'r aelodau wrthi'n ddiwyd yn paratoi tuag at Rali'r Sir, a gynhelir eleni ddydd Sadwrn, 26 Mai, dan ofal Clwb Mydroilyn – croeso cynnes i unrhyw un ddod lawr i'n cefnogi ac i wyllo'r lluo o gystadlaethau amrywiol.

25 mlynedd yn ol

Papur Pawb
Mai 1982



Ffeith hysbysu'r Ffotograffiaid a ddaeth yn ôl yn gyfnewidiadau
a hysbysu'r Ffotograffiaid a ddaeth yn ôl yn gyfnewidiadau
Guthrie Jones, Pina Metcalfe, Aileen Warren, John Evans,
Helen Hughes, Hilda, Wynne Metcalfe, John Jones.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol


Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Gwasanaeth Argraffu
DYLUNIO
ARGRAFFU PEDWAR LLIW
RHWYMO PERFFAITH



yLolfa

ffoniwch 01970 832 304
e-bostiwch prls@yloffa.com

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Nabod Heulwen

Beth wyddoch chi am ddawnsio llinell? Efallai eich bod chi, fel fi mewn sefyllfa o anwybodaeth llwyr am y testun, Wel, mae'r person y down i'w hadnabod y tro hwn yn dipyn o giamstar ar y grefft; ei henw yw Heulwen Astley, sy'n fwy cyfarwydd fel Heulwen Siop Spar Talybont. Mae Heulwen wedi ymddiddori mewn ddawnsio llinell ers pum mlynedd ac yn arwain a hyfforddi'r grwp lleol y Ravin' Stompers sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ymarfer a pherfformio ac ar yr un pryd yn codi arian i elusen cancr y fron.

Fel ein ddawnsio gwerin ni, mae gan ddawnsio llinell hefyd ei hanes. Os nad o'n i'n gwybod llawer, ro'n ni yn gwybod fod y cyfan yn dod o America ac yn gysylltiedig â diwylliant y cowboi a cherddoriaeth *country and western*. Ond mae'r gwreiddiau'n ddyfnach ac yn fwy cymhleth na hynny. Un farn yw fod y math cyntaf o ddawnsio llinell yn deillio o garcharorion yn America wedi'u cadwyno at ei gilydd ac yna'n gorfod cyd-gerdded neu gyd-ddawnsio – nid bod ganddyn nhw rhyw lawer o gyfle i symud! Barn arall, fwy tebygol, yw fod yr arfer yn seiliedig ar ddawnsfeydd *Contra* yn nhaleithau *New England* ym mlynnyddoedd cynnar y 19eg ganrif. Yn y ddawnsfeydd hyn fe fyddai dwy linell (*line*, felly) yn ffurfio, dynion ar un ochr, merched ar yr ochr arall. Wedyn, fe fyddai dyn a merch yn dod at ei gilydd yn y canol, symud lawr y llinell, y cwpwl nesa yn gwneud yr un peth ac yn y blaen. Ac ar unwaith mae rhywun yn cael ei atgoffa o rai o ddawnsfeydd gwerin Cymru ac yn cofio, siwr o fod, am ambell i brofiad mewn twmpath!

Dawns boblogaidd o'r cyfnod cynnar yw'r *Texas Two Step* a grewyd, mae'n debyg, tua 1850 gan rai oedd yn derbyn hyfforddiant fel milwyr yn academi filwrol West Point, America. Ar adegau fe fyddai'r milwyr ifanc yn mynd yn or-frwdfrydig yn eu ddawnsio, a hyn wedyn yn arwain at orchymyn clir y prif-gadfridog yn West Point – *All cadets while dancing with young ladies will now place their hand on the lady's shoulder and not on her back*. Atgofion unwaith eto, falle, o brofiadau mewn twmpath!

A symud yn agosach at ein cyfnod ni, erbyn yr 1950au roedd ddawnsio llinell wedi dod yn boblogaidd ar draws America a'r cysylltiad rhwng y ddawnsfeydd a chanu gwlad yn amlwg gyda chaneuon fel *Achy Breaky Heart*. Yn yr 80au a'r 90au gwelwyd sêr canu gwlad, fel Dolly Parton, yn rhoi hwb pellach. Ac wrth gwrs, gydag amser mae popeth bron sy'n boblogaidd yn America yn dod yn boblogaidd yma maes o law.

A dyna ddod â ni'n ôl yn naturiol at y *Ravin' Stompers* a Heulwen. Cychwynnodd y diddordeb gyda Heulwen wrth iddi fynd gyda'i chwaer i wyllo criw arall yn ddawnsio –

mwynhau'r profiad a phenderfynu sefydlu grwp lleol. Beth, felly, yw ddawnsio llinell? Mae Heulwen yn egluro – mewn ddawnsio llinell mae pawb yn wynebu i'r un cyfeiriad ac yn symud mewn llinellau. Mae pawb yn y llinell yn dilyn yr un stepiau ac mae'r ddawns yn cynnwys dilyniant o stepiau sy'n cael eu hailadrodd. A dyma rai o'r stepiau sylfaenol – croes – un droed o flaen y llall, *scuff* eto troed ymlaen, ond y tro hwn llusgo ar draws y llawr, *stomp* curo'r llawr yn galed a *grape-vine* symudiad tuag at yr ochr. Wrth gwrs, llawer gwell na disgrifiad moel fel hyn yw gwyllo a gweld y ddawnsio – wedyn fe fydd y peth yn dod yn fyw o flaen eich llygaid.

Bellach mae'r *Stompers* wedi bod mewn bodolaeth ers tair blynedd gyda Heulwen yn cynnal ac yn arwain dosbarthiadau yn Aberystwyth, Taliesin a Thal-y-bont. Mae tua ugain o ferched yn mynychu'r dosbarthiadau – yn dysgu'r stepiau, yn cael hwyl a hefyd yn gwneud rhywbeth i gadw'n iach a heini. Yn ôl Heulwen, mae ddawnsio llinell yn ffordd ardderchog i ymarfer a cholli pwysau. A heddiw mae'r *Stompers* yn ddawnsio nid yn unig i gerddoriaeth canu gwlad, ond i unrhyw beth sydd â churiad cryf – roc a rôl a phop cyfoes –

ac mae hyn yn bwysig i ddenu ieuenctid i'r grwp. Mae'r arfer o wisgo dillad cowboi wedi hen ddiplannu – y syniad gore yw gwisgo rhywbeth sy'n gyfforddus ac yn ysgafn. Fel gyda phob ymarfer corfforol fe fyddwch chi'n chwysu ac yn mynd yn reit boeth wrth ddawnsio!

Nid yn unig mae Heulwen a'r lleill yn cael sbri wrth ddawnsio, ond maen nhw hefyd yn codi arian i elusen Cancr y Fron. Rai blynnyddoedd yn ôl collodd Heulwen aelod o'i theulu i'r clefyd creulon hwn, a byth ers hynny bu'n gweithio'n galed dros yr elusen. Mae trydydd ymgyrch ac apêl y *Ravin' Stompers* newydd ddigwydd.

Cychwynnodd y cyfan gyda ddawnsio nodedig yn neuadd Tal-y-bont ac yna, wythnos yn ddiweddarach ar nos Sadwrn olaf Ebrill, cynhaliwyd digwyddiad yng nghlwb rygbi Aberystwyth. Roedd criw o glwb ddawnsio llinell Croesoswallt wedi dod i ymuno â'r ddawnsiwr lleol, ac yn

ôl Heulwen fe gafwyd noson lwyddiannus dros ben. Yn sgil ymgyrch eleni trosglwyddwyd £3,800 i Gronfa Apêl Cancr y Fron, Ysbyty Bronglais, ac yn y tair blynedd oddi ar sefydlu'r *Stompers* mae'r grwp wedi codi £8,200 ar gyfer yr elusen.

Mae ddawnsio llinell bellach yn boblogaidd ym mhob rhan o Gymru. Mae yna dros 200 o glybiau neu grwpiau, ac un rheswm amlwg am y poblogrwydd yw'r pwyslais ar ymarfer i gadw'n iach. Mae Heulwen a'r *Stompers* yn croesawu aelodau newydd ac yn glir eu barn – mae ddawnsio llinell yn hwyl, a hyd yn oed os nad ydych chi wedi ddawnsio erioed o'r blaen, dim i chi ddod unwaith fe fyddwch chi wedi cael eich bachu! Os oes gyda chi ddiddordeb cysylltwch â Heulwen ar 832486 – cynhelir dosbarthiadau yn Aberystwyth bob nos Lun, yn Nhaliesin bob nos Fawrth ac yn Nhal-y-bont bob nos Iau. A chwarae teg i Heulwen – fe wnaeth hi hyn oed estyn gwahoddiad i fi ymuno â nhw, ond rwy'n ofni mai tipyn o stomp fyddai fy nghyfraniad i!

GIE



Trip Cyffrous!



Yn y llun gwelir bron i 100 o blant ac oedolion o'r ardal hon yn sefyll y tu allan i stadiwm Manchester City ar 14 Ebrill 2007, sef trip blynyddol Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont a drefnwyd gan Brian Richards i weld Manchester City yn chwarae yn erbyn Lerpwl. Cafwyd diwrnod braf, stadiwm ffantastig, a siawns i'r chwaraewyr ifanc weld eu harwyr ar y cae. Y sgôr terfynol oedd 0-0. Dyma beth oedd camp – llond 2 fws – a diolch o galon i Brian am drefnu'r cyfan. Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf yn barod!

Tîm Hoci



Llongyfarchiadau i dîm 'A' Ysgol Tal-y-bont ar ddod yn ail yng Nghynghrair Hoci Ysgolion Cynradd Cylch Aberystwyth. Hyfforddir y tîm gan Mrs Jane Bailey.

Gymnasteg

Teithiodd Zoe Forster-Brown a Naimh O'Brian lawr i Gastell-nedd i gystadlu gyda



thimau Clwb Gymnasteg Aberystwyth. Roedd Zoe yn ddigon ffodus i fod yn y tîm a gafodd yr ail wobwr.

Pêl-droed

Llongyfarchiadau i Ben Jackson (ar y chwith) ar gael ei ddewis yn Chwaraewr y Flwyddyn dan 14 mlwydd oed gan Gynghrair Ieuenctid Aberystwyth. Roedd Richard Jenkins (ar y dde) ymhlith y tri chwaraewr gorau yn yr adran dan 11 oed ac felly hefyd Max Jones (adran dan 12) a oedd yn anffodus yn absennol pan dynnwyd y llun. Ceir adroddiad llawn o lwyddiannau timau ieuenctid Tal-y-bont yn ystod y tymor yn y rhifyn nesaf.



Ymlaen i'r 50?

Braf oedd clywed llais Anthony Southgate un bore Sadwrn rai wythnosau'n ôl ar raglen Radio Cymru 'Ar y Marc'. Cafodd ei holi am ei gamp yn chwarae'n rheolaidd i Dal-y-bont ac yntau'n 49 mlwydd oed. Cawsom ychydig o hanes ei yrfa yng Nghynghrair Aberystwyth a'r Cylch a ddechreuodd pan oedd ond yn 14 mlwydd oed. Soniodd Anthony'n ffyddiog y byddai'n ddigon ffrit i chwarae ymlaen am dymor neu ddau eto. Ond yn anffodus rhyw dair wythnos wedi'r darllediad daeth y newyddion bod Anthony wedi torri ei fraich ac na fyddai'n chwarae eto y tymor hwn. Dymunwn wellhad buan iddo a gobeithiwn nad yw ei yrfa ar ben am un flwyddyn arall o leiaf er mwyn iddo ailadrodd camp Bill Gifford yn chwarae dros Dal-y-bont wedi croesi'r 50!